

PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1F

TYSTIOLAETH

Cyflwyniad

1. Mae'r Tribiwnlys/Panel Apêl yn gallu derbyn tystiolaeth, p'un a'i rhoddwyd ar lafar neu yn ddogfennol, sy'n ymdrechu i sefydlu ffeithiau.
2. Ar wahân i'r darpariaethau a nodir yn y ddeddfwriaeth isod, nid yw Tribiwnlys/Panel Apêl yn cael eu rhwymo gan unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol sy'n ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth gerbron llysoedd barn.

Deddfwriaeth

- Rheol 31 a 32 Rheoliadau Ardrethiant Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheol 26 a 27 o Reoliadau Dreth Gyngor (Newid i Restrau ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheol 38 a 39 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Cyfnewid Tystiolaeth

3. **Ac eithrio'r wybodaeth a nodir yn "Cyfyngiadau ar y defnydd o wybodaeth" isod**, nid oes unrhyw ofynion statudol yng Nghymru ar gyfer partion i fod wedi cyfnewid tystiolaeth/datganiadau o'r achos cyn diwrnod y gwrandawriad.
4. Fodd bynnag, bydd y Tribiwnlys yn disgwyl bod **partion wedi trafod a chyfnewid tystiolaeth o leiaf 2 wythnos cyn diwrnod y gwrandawriad**.

Cyfyngiadau ar y defnydd o wybodaeth

5. Mae Rheoliadau yn cyfyngu ar y defnydd o beth wybodaeth yn ystod achosion yn y mathau canlynol o apêl.

Trethiant Annomestig

6. Os yw'r Swyddog Prisio yn bwriadu dibynnu ar unrhyw dystiolaeth sy'n dod o dan reoliadau 31 o OS 2005/758, rhaid bod y dystiolaeth hynny yn cael ei ddatgelu i'r apelydd yn unol â'r rheoliadau - gan roi rhybudd o 3 wythnos i bob parti '.
7. Rhaid i'r Swyddog Prisio ganiatáu unrhyw barti, sydd wedi rhoi hysbysiad o leiaf 24 awr', i archwilio'r dogfennau neu gyfrwng arall mewn neu ar ba wybodaeth sy'n cael ei gadw ac i wneud copi (ac eithrio llungopi).

8. Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno gan y Swyddog Prisio, gall parti gyflwyno gwrth hysbysiad ar y SP yn gofyn am wybodaeth.
9. Pan fo'r cais hynny ddim yn cael ei gydymffurfio ag ef, mae'n golygu bod y dystiolaeth yn annerbyniadwy a gall barti apelio i'r Tribiwnlys i gyfarwyddo bod y cais yn cael ei gydymffurfio ag ef.

Prisio Treth y Cyngor

10. Os yw'r Swyddog Rhestru yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth sy'n dod o dan reol 26 o OS 1993/290, rhaid bod y dystiolaeth hynny yn cael ei datgelu i'r apelydd yn unol â'r rheoliadau - gan roi o leiaf 2 wythnos o rybudd i bob parti.
11. Rhaid i'r Swyddog Rhestru ganiatáu unrhyw barti, sydd wedi rhoi hysbysiad o leiaf 24 awr, i archwilio'r dogfennau neu gyfryngau eraill mewn neu ar ba wybodaeth sy'n cael ei gadw ac i wneud copi (ac eithrio llungopi).
12. Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno gan y SR, gall barti gyflwyno gwrth hysbysiad ar y SR yn gofyn am wybodaeth.
13. Lle nad yw cais wedi cael ei gydymffurfio ag ef, mae'n golygu bod y dystiolaeth yn annerbyniadwy, a gall barti apelio i'r Tribiwnlys, i gyfarwyddo bod y cais yn cael ei gydymffurfio ag ef.

Atebolrwydd Treth y Cyngor

14. Lle bo'r Awdurdod Trethu yn bwriadu defnyddio gwybodaeth sy'n dod o dan reol 38 a 39 o OS 2010/713, bydd rhaid i'r dystiolaeth hynny gael ei ddatgelu i'r apelydd yn unol â'r rheoliadau - gan roi o leiaf 2 wythnos o rybudd i bob parti.
15. Rhaid i'r Awdurdod Trethu ganiatáu i unrhyw barti, sydd wedi rhoi hysbysiad o leiaf 24 awr, i archwilio'r dogfennau neu gyfryngau eraill mewn neu ar ba wybodaeth sy'n cael ei gadw ac i wneud copi (ac eithrio llungopi).
16. Gall y wybodaeth y cyfeirir ato yn y rheoliadau gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth, os yw'r gofynion o ran rhybudd wedi cael eu bodlon.